**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**29-01-10**

**Presennol:** Y Cynghorydd John G. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Keith Greenly-Jones, J.R. Jones, John W. Jones, W. Tudor Owen a Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Goronwy O. Parry (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) a Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau)

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:** Paul Potter a William Marshall (Hymans Robertson)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Gwilym Euros Roberts

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. EITEM FRYS

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Club Vita, sef partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a sefydlwyd yn wreiddiol gan Hymans Robertson i weithredu ar sail tâl aelodaeth ar gyfer cronfeydd pensiwn gyda mwy na 1,000 o aelodau gyda'r nod o wella'r gronfa wybodaeth ynglyn ag oes bywyd eu haelodaeth er mwyn caniatau iddynt reoli'r risg hwnnw'n well.

Yn dilyn y Pwyllgor Pensiynau diwethaf, cysylltodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol gyda Hymans Robertson ynglyn ag ymaelodi â gwasanaeth Club Vita ond nodwyd y byddai'n rhaid ymaelodi am dair blynedd ar gost o £10,000 y flwyddyn ynghyd â chost ymaelodi o £5,000. Fodd bynnag, maent yn fodlon cael gwared o'r gost ymaelodi o £5,000 pe byddai Gwynedd yn ymaelodi.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r penderfyniad i ymaelodi â gwasanaeth Club Vita ar sail aelodaeth am dair blynedd.**

## 3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 4. PENODI RHEOLWR BONDIAU

Adroddwyd, o’r deg cwmni a oedd ar y rhestr fer, penderfynwyd ar y tri cwmni i’w cyfweld ar ôl derbyn adroddiad gan Hymans Robertson a oedd wedi asesu’r cwmniau ar bump elfen. Dewiswyd y cwmniau oedd i’w cyfweld ar ôl ystyried matrics sgorio drafft a gyflwynwyd gan Hymans Robertson ac fe sgoriwyd y cwmniau yn unol â’r matrics hwnnw.

Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad a baratowyd gan Hymans Robertson ar y tri cwmni oedd yn cael eu cyfweld sef Henderson, Insight a Threadneedle. Cyfwelwyd y tri cwmni.

Yn dilyn y cyfweliadau, nodwyd bod angen addasu’r sgorio ar gyfer elfennau cryfder corfforaethol; pobl fyddai’n ymdrin â’r portffolio; prosesau a ffioedd i adlewyrchu’r wybodaeth bellach a gafwyd yn y cyfweliadau.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol, ar sail y sgorio yn dilyn y cyfweliadau, i benodi Cwmni Insight fel Rheolwr Bondiau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 2.35pm